

YSGOL BOTWNNOG

POLISI ABCH

NOD

Mae ABCh yn rhan o'r Cwricwlwm Sylfaenol yng Nghymru a byddwn yn anelu i ddarparu Cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion Ysgol Botwnnog.

AMCANION

Hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion i'w paratoi i fod yn aelodau llawn o gymdeithas. Creu awyrgylch gefnogol i ddisgyblion ddatblygu yn y meysydd yma i greu hunan ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a meithrin cyfrifoldeb. Cynnig profiadau i ddisgyblion ystyried eu safbwyntiau, i dderbyn gwybodaeth ac i ddatblygu yn ddinasyddion byd eang cydwybodol.

DULL GWEITHREDU

Bydd ein darpariaeth ABCH yn anelu i bob disgybl yn ôl eu gallu i gyrraedd y canlyniadau dysgu a nodir yn y Fframwaith yn cynnwys:-

- Gwerthoedd ac agweddau;
- Sgiliau;
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r 10 agwedd;
- Rhoi pwyslais ar fedrau allweddol.

Mae hyn yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol a'r cyfleoedd dysgu sy'n codi ohonynt.

- Gwersi ABCh penodedig CA3 / CA4 (awr yr wythnos);
- Gwersi pwnc;
- Gwasanaeth boreol dyddiol;
- Gwersi Gyrfaoedd;
- Ffeil Cynnydd;
- Gweithdai penodol, e.e. atal cenhedlu, afiechydon rhywiol, menter;
- Cynadleddau e.e. Criw Craidd;
- Cyflwyniadau, e.e. Frân Wen;
- Prosiectau, e.e. Ysgol Werdd; Ysgol Iach;
- Gwersi Drama CA3.
- Gwersi BAC CA4

Bydd y gwersi ABCh ym Mlynnyddoedd 8, 10 ac 11 yn cael eu dysgu gan athrawon profiadol ac mewn meysydd o fewn y fframwaith, sy'n atgyfnerthu gweddill y rhaglen ABCh ac sydd o ddiddordeb i'r athrawon. Ym mlynnyddoedd 10 ac 11 bydd ABCh yn rhan o'r Fagaloriaeth Gymreig.

Fe fydd y Cyd-gysylltydd ABCh yn monitro ac arfarnu'r ddarpariaeth mewn ymgynghoriad â'r athrawon. Rhoddir ystyriaeth hefyd i farn disgyblion trwy ddefnydd holiadur 'Pawb a'I Farn' yn dilyn digwyddiadau penodol ond hefyd trwy ymgynghoriad llawn â'r Cyngor Disgyblion.

Mae mwy o wybodaeth am y ddarpariaeth ABCh ar gael yn ffeil ABCh yr ysgol.

GOH
Mehefin 2013